# COMMUNICATION FRIENDLY ENVIROMENT



## What is a communication friendly environment?

A communication friendly environment is a space that encourages and promotes good communication. This focuses on the role of the environment in supporting speaking and listening skills, emotional wellbeing, physical development and general engagement. It also supports learning social and emotional development. Making subtle and simple changes to our communication and environment can improve interaction and understanding.

## How to create a communication friendly environment

- **Repetition and Consistency:** Staff must be consistent in the way we communicate with children. It is important to all use the same form of communication when communicating with certain children. Be aware of communication needs and share knowledge.
- **Visual Systems**: Where possible give the sign (or gesture) as well as the spoken word, this doubles the impact of the message, making it easier to understand. Have photographs/ symbols displayed for different areas and activities. Objects can be used to give individuals an idea of what is about to happen.
- **Language Level:** Keep language simple and gain the child's attention by using their name before giving a direction. Break long sentences down into separate ideas and use one key word at a time. Be aware and remember to adjust your language at a level that the listener will understand, slow your speech and give them plenty of time to process the information. Be prepared to wait.
- **Language Opportunities:** Provide lots of opportunities to interact and communicate. Know when to use open and closed questions (closed question require a short answer, often "yes" or "no", open questions seek longer answers). Use social opportunities e.g. snack time to encourage making and communicating choice. Provide a commentary on play instead of asking lots of questions.
- **The Environment:** Provide good lighting and reduce background noise or distractions. This is particularly important for those children with hearing or visual impairments.
- **Body Language:** Use body language, facial expressions and gesture.
- **Face to Face:** Make sure you are facing the person, be at their level. Use touch, it may help individuals understand activities, people and places.

## What should the environment look like?

- Visual schedules. This enables the child to know what and when something is expected.
- Cosy, calm and quiet space to allow the children to talk and think.
- Minimal background noise, making sure the noise level is at an acceptable level.
- Activities that are giving opportunities to engage in structured conversations.
- Create a safe and supportive environment where children can express their thoughts and ideas.

## Key factors

Key factors to be considered during settings;

- Clear and consistent routines – Ensure all staff all using the same language / phrases – circle time/ carpet time/ story time. Use visual schedules to help the children follow their routine. Use signs and symbols around the setting for the children to approach for communication.
- Ensure good lighting where possible and consider the general noise level of the setting, are there lots of distractions for the child? Ensure everyone can everyone hear and be heard.

# AMGYLCHEDD SY'N HYRWYDDO CYFATHREBU



## Beth yw amgylchedd sy'n hyrwyddo cyfathrebu?

Man sy'n hyrwyddo ac yn annog cyfathrebu da yw amgylchedd sy'n hyrwyddo cyfathrebu.   Y canolbwynt yw rôl yr amgylchedd wrth gefnogi sgiliau siarad a gwrando, lles emosiynol, datblygu corfforol ac ymgysylltu cyffredinol. Mae hefyd yn cefnogi dysgu a datblygu cymdeithasol ac emosiynol. Gall newidiadau cynnil a syml i'n dulliau cyfathrebu a'n hamgylchedd wella rhyngweithio a dealltwriaeth.

## Sut i greu amgylchedd sy'n hyrwyddo cyfathrebu

- **Ailadrodd a Chysondeb:** Rhaid i staff fod yn gyson yn y ffordd rydyn ni'n cyfathrebu â phlant. Mae'n bwysig i bawb ddefnyddio'r un math o gyfathrebu wrth gyfathrebu â rhai plant penodol. Byddwch yn ymwybodol o anghenion cyfathrebu a rhannwch gwybodaeth.
- **Systemau Gweledol**: Lle bo'n bosibl rhowch arwydd (neu ystum) yn ogystal â gair llafar, mae hyn yn dyblu effaith y neges, gan ei gwneud yn haws ei deall. Arddangoswch ffotograffau/symbolau mewn gwahanol ardaloedd ac ar gyfer gwahanol weithgareddau. Gellir defnyddio gwrthrychau i roi syniad i unigolion o'r hyn sydd ar fin digwydd.
- **Lefel Iaith:** Cadwch iaith yn syml a denwch sylw'r plentyn drwy ddefnyddio ei enw cyn rhoi cyfarwyddyd.  Rhannwch frawddegau hir yn syniadau ar wahân a defnyddiwch un gair allweddol ar y tro. Meddyliwch, a chofiwch addasu eich iaith i lefel y bydd y gwrandäwr yn ei deall, arafwch wrth siarad a rhowch ddigon o amser iddo brosesu'r wybodaeth. Byddwch yn barod i aros.
- **Cyfleoedd Iaith:** Cynigiwch lawer o gyfleoedd i ryngweithio a chyfathrebu. Sicrhewch eich bod yn gwybod pryd i ddefnyddio cwestiynau agored a chaeedig (mae angen ateb byr ar gwestiwn caeedig, yn aml "ydw" neu "nac ydw", mae cwestiynau agored yn gofyn am atebion hirach). Defnyddiwch gyfleoedd cymdeithasol e.e. amser byrbryd i annog plant i wneud a chyfathrebu eu dewis. Rhowch sylwebaeth ar chwarae yn lle gofyn llawer o gwestiynau.
- **Yr Amgylchedd:** Sicrhewch fod digon o olau a chyn lleied a phosibl o sŵn cefndir neu bethau a all dynnu sylw.  Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r plant hynny sydd â nam ar y clyw neu'r golwg.
- **Iaith y Corff:** Defnyddiwch iaith y corff, mynegiant yr wyneb ac ystumiau.
- **Wyneb yn Wyneb:** Sicrhewch eich bod yn wynebu'r person ac ar yr un lefel ag ef.  Manteisiwch ar gyffwrdd, gall helpu unigolion i ddeall gweithgareddau, pobl a lleoedd.

## Sut olwg ddylai fod ar yr amgylchedd?

- Amserlenni gweledol. Mae hyn yn galluogi'r plentyn i wybod beth a phryd y disgwylir rhywbeth.
- Lle cartrefol, digyffro a thawel i ganiatáu i'r plant siarad a meddwl.
- Dim llawer o sŵn yn y cefndir, gan sicrhau bod lefel y sŵn yn dderbyniol.
- Gweithgareddau sy'n rhoi cyfleoedd i gymryd rhan mewn sgyrsiau strwythuredig.
- Crëwch amgylchedd diogel a chefnogol lle gall plant fynegi eu meddyliau a'u syniadau.

## Ffactorau allweddol

Y ffactorau allweddol i'w hystyried mewn lleoliadau;

- Trefn glir a chyson – Sicrhewch fod pob aelod o staff yn defnyddio'r un iaith/ymadroddion – amser cylch/ amser carped/ amser stori.  Defnyddiwch amserlenni gweledol i helpu'r plant i ddilyn eu trefn arferol.  Defnyddiwch arwyddion a symbolau yn y lleoliad er mwyn i'r plant fynd atynt i gyfathrebu.
- Sicrhewch fod digon o olau lle bo'n bosibl ac ystyriwch lefel sŵn gyffredinol y lleoliad, a oes llawer o bethau i dynnu sylw'r plentyn? Sicrhewch fod pawb yn gallu clywed a chael eu clywed.